
Digidol 2030

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Crynodeb Gweithredol

Adolygiad canol tymor Digidol 2030



Awst 2026

Jisc



Dysgu digidol yng Nghymru yn mynd i gyfnod newydd

Cyhoeddwyd Digidol 2030 yn 2019 gyda phwrpas clir: gosod cyfeiriad strategol a rennir ar gyfer dysgu digidol ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru gan ganiatáu yr hyblygrwydd i ddarparwyr ymateb i'w cyd-destunau eu hunain. Mae'r adolygiad canol tymor yn ystyried i ba raddau y mae'r cyfeiriad hwnnw wedi'i wireddu, beth sydd wedi newid yn y blynyddoedd ers hynny, ac yn argymell blaenoriaethau ar gyfer cam olaf y fframwaith.

Mae'r canfyddiadau pennaf yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r sylfeini y bwriadwyd i fframwaith strategol Digidol 2030 eu sefydlu bellach yn eu lle i raddau helaeth. Mae seilwaith, llwyfannau a systemau digidol wedi'u hymgorffori ar draws addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol i oedolion. Mae ymrwymiad arweinyddiaeth yn weladwy. Mae cydweithio ar draws y sector wedi cryfhau. Nid yw digidol bellach yn faes arloesi ar wahân, ond mae wedi'i wreiddio'n gynyddol mewn addysgu, dysgu, diwylliant sefydliadol a gwaith ehangach addysg ôl-16.

Mae'r her wedi symud. Mae angen nawr i system a dreuliodd lawer o'r degawd diwethaf yn adeiladu a mabwysiadu dulliau digidol ofyn a yw dysgwyr yn profi'r dulliau hynny'n dda ac yn gyson. Dyna waith y cam nesaf.

Beth sydd wedi newid ers 2019

Mae'r cyfnod ers 2019 wedi symud trwy dri chyfnod eang: ffocws cychwynnol ar godi ymwybyddiaeth a gwella seilwaith; cyflymiad cyflym yn ystod pandemig Covid-19; ac, ers 2022, symudiad tuag at gydgrynhoi, ymgorffori a gwella sut mae dysgu digidol yn cael ei brofi yn ymarferol.

Mae'r cyd-destun ehangach hefyd wedi esblygu. Sefydlwyd Medr yn 2024, gan greu strwythur trydyddol mwy integredig ar draws addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu cymunedol i oedolion. Mae polisi digidol cenedlaethol a datblygiadau cyflym mewn deallusrwydd artiffisial hefyd wedi ail-lunio'r cyd-destun y mae Digidol 2030 yn gweithredu ynddo nawr.

Mae'r sector wedi dod yn fwy aeddfed ac yn fwy cymhleth ers cyhoeddi fframwaith Digidol 2030 gyntaf.

Yr hyn a ganfuwyd yn yr adolygiad

Seiliau cryf ond mae'r arfer yn dal yn anwastad

Mae darparwyr ledled Cymru wedi gwneud cynnydd gwirioneddol a chynaliadwy. Mae buddsoddi mewn seilwaith a llwyfannau wedi cryfhau'r sylfeini ar gyfer dysgu digidol. Mae sylw arweinyddiaeth i ddysgu digidol yn fwy cyson, ac mae dulliau digidol bellach wedi'u hymgorffori'n fwy mewn addysgu, dysgu ac arfer sefydliadol o ddydd i ddydd ar draws modiwlau a chyrsiau.

Yr hyn sy'n llai cyson yw pa mor gyfartal y mae arfer digidol wedi'i wreiddio ar draws rhaglenni a meysydd darpariaeth. O ganlyniad, gallai dysgwyr ddod ar draws amrywiad sylweddol yn y ffordd y mae dysgu digidol yn cael ei drefnu, ei gyfleu a'i gefnogi ar draws eu profiad dysgu.

Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r anhawster o symud o fabwysiadu i wreiddio mewn sector sydd mor amrywiol, dan bwysau ac yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ariannol, capasiti a sefydliadol.

Mae profiad y dysgwr yn gadarnhaol ar y cyfan ond nid yw bob amser yn gydgysylltiedig

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn adrodd am brofiadau cadarnhaol ac yn gwneud defnydd helaeth o offer digidol. Mae'r her yn ymwneud llai â ph'un a yw digidol yn cael ei ddefnyddio, a mwy â pha mor gyson a chydlynol y mae'r profiad yn teimlo i ddysgwyr.

Yr hyn y mae'r adolygiad yn ei ganfod yw nad yw dysgwyr bob amser yn profi dysgu digidol yn gydlynol ar draws rhaglenni a chyd-destunau. Efallai y bydd yn rhaid i ddysgwyr sy'n llywio gwahanol ddulliau ar draws un rhaglen addasu dro ar ôl tro. I lawer mae hyn yn rheoladwy. I'r rhai sy'n dal i ddatblygu hyder digidol, neu'n rheoli dysgu ochr yn ochr â phwysau eraill, gall amrywiad diangen greu rhwystrau y gellir eu hosgoi.

Mae gwella cydlyniant a rhagweladwyedd profiad digidol y dysgwr yn un o'r blaenoriaethau cliriaf ar gyfer y cam nesaf. Y nod yw lleihau amrywiad diangen gan barhau i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer gwahanol ddulliau a chyd-destunau addysgu.

Mae amodau'r gweithlu yn llunio'r hyn sy'n bosibl

Mae gallu digidol yn bwysig, ond felly hefyd yr amodau y disgwylir i staff ei ddatblygu a'i gymhwyso ynddynt. Mae pwysau llwyth gwaith, amser cyfyngedig ar gyfer dysgu proffesiynol a rolau arweinwyr canol dan bwysau yn gyfyngiadau gwirioneddol ar ba mor bell y gellir ymgorffori a chynnal ymarfer digidol dros amser. Gall yr amodau hyn hefyd ddylanwadu ar hyder staff a'u parodrwydd i ymgysylltu â dulliau newydd.

Mae arweinwyr canol yn chwarae rhan hanfodol wrth drosi uchelgais yn arfer cyson o ddydd i ddydd. Mae cefnogi'r grŵp hwn gyda'r amser, yr eglurder a'r gefnogaeth sefydliadol sydd eu hangen i gynnal arfer digidol effeithiol yn un o'r blaenoriaethau ymarferol ar gyfer y cam nesaf.

Mae cydweithio yn gryfder gwirioneddol

Mae rhwydweithiau ymarferwyr, cefnogaeth gan gymheiriaid a dysgu ar y cyd wedi cefnogi hyder, arbrofi a datblygiad proffesiynol mewn ffyrdd na all strategaeth ffurfiol ar ei phen ei hun ei hatgynhyrchu. Mae'r mathau hyn o gydweithio yn parhau i fod yn rhan bwysig o sut mae arfer digidol yn datblygu ar draws y sector.

Ond mae cyfyngiadau i gydweithio. Mae ei fanteision yn tueddu i aros yn lleol oni bai eu bod wedi'u cysylltu'n weithredol â strategaeth, arweinyddiaeth a dilyniant parhaus. Mae cefnogi dulliau mwy strwythuredig o wella ar y cyd a helpu arfer effeithiol i ledaenu y tu hwnt i unigolion a thimau yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig.

Mae angen rhoi sylw parhaus i gynhwysiant a phrofiad dwyieithog

Mae tlodi digidol yn parhau i effeithio ar rai dysgwyr. Mae arferion hygyrchedd wedi gwella, ond nid yw profiad digidol cyfartal wedi'i gyflawni'n gyson ar draws y sector eto.

Nododd yr adolygiad hefyd bryder penodol ynghylch profiad digidol dwyieithog. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu nad yw dysgwyr a staff bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n gyfartal i ymgysylltu â dysgu digidol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae cynnal dysgu digidol dwyieithog hygyrch a chynhwysol yn flaenoriaeth bwysig ar gyfer y cam nesaf.



Mae deallusrwydd artiffisial yn ail-lunio'r cyd-destun

Mae AI eisoes yn dylanwadu ar asesu, cymorth i ddysgwyr a barn broffesiynol. Nododd yr adolygiad gyfleoedd gwirioneddol, gan gynnwys defnyddio offer i gefnogi hygyrchedd, lleihau agweddau ar lwyth gwaith gweinyddol a gwella adborth. Nododd hefyd ansicrwydd gwirioneddol.

Mae canllawiau anghyson ynghylch defnydd derbyniol o AI yn creu pryder i ddysgwyr a staff, yn enwedig lle mae disgwyliadau'n amrywio rhwng modiwlau neu sefydliadau. Mewn rhai achosion, mae arfer yn datblygu'n gyflymach nag y gall strategaeth sefydliadol gadw i fyny ag ef. Mae'r materion hyn eisoes yn llunio profiad dysgwyr a staff yn uniongyrchol ac mae'n debygol y byddant angen dealltwriaeth gyffredin well ar draws y sector dros amser.

Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad y dylid deall AI fel mater trawsbynciol sy'n llunio'r amgylchedd dysgu digidol ehangach, yn hytrach nag fel ffrwd waith ar wahân sy'n cael sylw ar ei phen ei hun.



Beth fydd yn bwysig nesaf

Nid yw'r adolygiad yn galw am ailgynllunio strwythurol Digidol 2030. Mae ei ddull sydd heb fod yn rhagnodol yn parhau i fod yn briodol, ac mae'r Weledigaeth a'r Nodau yn parhau i fod yn berthnasol.

Yr hyn y mae'n ei awgrymu yw'r angen am ddehongliad mwy craff a chefnogaeth ymarferol gryfach. Mae darparwyr eisiau dealltwriaeth gliriach a rennir o sut olwg sydd ar arfer digidol effeithiol o safbwynt y dysgwr, deunyddiau ategol wedi'u hadnewyddu a chanllawiau ymarferol sy'n adlewyrchu'r pwysau cyfredol, a chydweithio sy'n strwythuredig ac yn bwrpasol.

Gellir grwpio'r blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer y cam nesaf yn bum maes:

1. **Profiad y dysgwr**. Lleihau amrywiad diangen a chefnogi amgylcheddau dysgu digidol mwy cydlynol a hygyrch ar draws darparwyr a rhaglenni
2. **Arweinyddiaeth, gallu a chapasiti sefydliadol**. Cryfhau gallu arweinwyr canol a chreu'r amodau sefydliadol sy'n caniatáu cynnal arfer effeithiol dros amser.
3. **Cynhwysiant, darpariaeth ddwyieithog a lles**. Cynnal ffocws ar dlodi digidol, hygyrchedd, profiad digidol dwyieithog, a chyfranogiad diogel mewn dysgu digidol wrth i offer AI ddod yn fwy ymgorfforedig.
4. **Cydweithio a gwella**. Cefnogi cydweithio strwythuredig sy'n helpu arfer effeithiol i symud y tu hwnt i dimau unigol a'i wreiddio'n ehangach.
5. **Amodau system sy'n llunio ymarfer digidol**. Cydnabod yr amodau ariannu, rheoleiddio, partneriaeth a system ehangach sy'n dylanwadu ar yr hyn y gall darparwyr ei weithredu a'i gynnal yn ymarferol.

Edrych ymhellach ymlaen

Y tu hwnt i 2030, mae'n debygol y bydd angen mwy o gydlynu ar lefel y sector ar gyfer dysgu digidol. Wrth i ddiddordeb gynyddu mewn llwybrau dysgu gydol oes, cymwysterau byrrach a dysgu modiwlaidd, mae'n debygol y bydd teithiau dysgwyr yn dod yn gynyddol hyblyg ac yn llai llinol. Mae'n debygol y bydd mwy o aliniad ar draws addysg bellach ac uwch, lle mae hyn yn gwella profiad y dysgwr a'r cyfnod pontio, yn dod yn bwysicach dros amser.

Mae goruchwyliaeth Medr o'r sector trydyddol yn ei osod yn dda i helpu i gefnogi'r gwaith hwn. Y cyfle yw symud y tu hwnt i'r fframwaith ei hun tuag at alluogi'r amodau ehangach y mae dysgu digidol effeithiol yn dibynnu arnynt: disgwyliadau cyffredin, tystiolaeth gydgysylltiedig a'r math o ddeialog cydlynol yn y sector na all darparwyr unigol ei chynnal ar eu pen eu hunain.

Casgliad

Mae'r sector yr ysgrifennwyd Digidol 2030 ar ei gyfer yn edrych yn wahanol i'r un sy'n bodoli heddiw. Mewn sawl ffordd, mae hynny'n adlewyrchu'r graddau y mae dysgu digidol bellach wedi'i ymgorffori ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru, tra hefyd yn tynnu sylw at yr heriau newydd sy'n dod gydag amgylchedd digidol mwy aeddfed.

Mae'r cam nesaf yn llai am adeiladu sylfeini newydd a mwy am wneud gwell defnydd o'r hyn sydd yno eisoes. Mae angen eglurder ar system aeddfed sy'n mynd i mewn i gyfnod newydd ynghylch yr hyn y mae'n gweithio tuag ato, cefnogaeth i gyrraedd yno, a chydnabyddiaeth onest o'r amodau strwythurol sy'n llunio'r hyn sy'n bosibl.

Dyna beth ddylai cam olaf Digidol 2030 ei ddarparu.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Medr
2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

info@medr.cymru
medr.cymru

Jisc

Jisc
4 Portwall Lane
Bristol
BS1 6NB
0203 697 5860

help@jisc.ac.uk
jisc.ac.uk